# Polisi Diogelu Data

Rhif y Polisi
Dyddiad Gweithredol: 1 Gorffennaf 2022
Diwygiwyd Ddiwethaf: Mawrth 2018
Dyddiad Adolygu: 1 Gorffennaf 2023
Corff Cymeradwyo: Bwrdd Rheoli'r Brifysgol

**Perchennog y Polisi**: Cofrestrydd Prifysgol Abertawe
**Awdur(on) y Polisi:** Bev Buckley, Swyddog Diogelu Data

## 1. Diffiniadau

| **Term** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Data Personol | Data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data, neu o'r data a gwybodaeth arall sydd ym meddiant (neu sy'n debygol o fod ym meddiant) y Rheolydd Data ac sy'n cynnwys unrhyw farn a fynegir am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau'r Rheolydd Data neu unrhyw berson arall mewn perthynas â'r unigolyn. |
| Data Personol Categori Arbennig | Data Personol Categori Arbennig yw data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig at ddiben adnabod unigolyn yn unigryw, data yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys anableddau) neu fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn. |
| Rheolydd Data | Y Rheolydd Data yw person neu sefydliad sy'n penderfynu at ba ddibenion y caiff unrhyw ddata personol eu prosesu ac ym mha fodd. At ddibenion y polisi hwn, y Brifysgol yw'r Rheolydd Data cofrestredig. |

| | |
|---|---|
| Prosesydd Data | Y Prosesydd Data yw unrhyw berson (ac eithrio un o gyflogeion y Rheolydd Data) sy'n prosesu data ar ran y Rheolydd Data e.e. person neu sefydliad sy'n casglu ac yn prosesu data ar ran y Brifysgol o dan gontract. |
| Prosesu | Prosesu Data yw unrhyw weithrediad sy'n ymwneud â data personol, gan gynnwys cael, cofnodi, dal, trefnu, addasu, cyfuno, newid, adalw, ystyried, datgelu, lledaenu, dileu, dinistrio ac fel arall ddefnyddio'r data personol. |
| Testun Data | Testun y Data yw unigolyn byw sy'n destun y data personol. |
| Cydsyniad | Cydsyniad Dilys yw unrhyw arwydd penodol, hyddysg a diamwys o ddymuniadau'r unigolyn a roddir o'i (g)wirfodd lle mae'n cytuno, drwy ddatganiad neu drwy weithred gadarnhaol glir, i ddata personol sy'n ymwneud ag ef gael eu prosesu. |
| Trydydd Parti | Trydydd Parti yw unrhyw berson ac eithrio Testun y Data, y Rheolydd Data neu unrhyw Brosesydd Data neu berson a awdurdodir i brosesu data ar ran y Rheolydd Data neu'r Prosesydd Data. |
| Tor diogelwch Data Personol | Achos o dor diogelwch sy'n arwain at achos damweiniol neu anghyfreithlon o ddinistrio data personol sy'n cael eu trosglwyddo, eu storio neu fel arall eu prosesu, neu eu colli, eu newid, eu datgelu heb awdurdod neu fynediad diawdurdod at ddata personol. |
| Hysbysiad Preifatrwydd | Mae cyfreithiau diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolydd Data roi gwybodaeth benodol a manwl i Destun y Data ynglŷn â sut a pham mae ei (d)data personol yn cael eu prosesu (gan gynnwys pwy yw'r Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data, sut y bydd y Brifysgol yn defnyddio, yn prosesu, yn datgelu, yn diogelu ac yn cadw'r data personol hynny a pham). Mae'n rhaid i wybodaeth o'r fath gael ei darparu drwy Hysbysiadau Preifatrwydd |

| | |
|---|---|
| | priodol.<br><br>Dylai Hysbysiadau Preifatrwydd gael eu darparu ar adeg casglu data personol ac yn ddelfrydol drwy'r un cyfrwng. Dylai Testun y Data gael ei hysbysu am unrhyw newid drwy Hysbysiad Preifatrwydd. O ystyried lefel yr ymgysylltu â phartïon allanol a diwydiannau, a'r gwahanol raglenni y mae'r Brifysgol yn eu cynnal, efallai y bydd hyn yn gofyn am adolygu a rheoli rheolaidd.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am Hysbysiadau Preifatrwydd ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:-<br><br>http://ico.org.uk/for_organisations/data_protection/topic_guides/privacy_notices |

## 2. Cefndir

Mae Prifysgol Abertawe ("y Brifysgol") yn ymrwymedig i ddiogelu data drwy ddylunio a chefnogi hawliau diogelu data pawb y mae'n gweithio â nhw, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, staff, myfyrwyr, ymwelwyr, cyn-fyfyrwyr a chyfranogwyr ymchwil. Mae'r polisi hwn yn nodi atebolrwydd a chyfrifoldebau'r Brifysgol, ei staff a'i myfyrwyr i gydymffurfio'n llawn â darpariaethau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UKGDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) ac mae'n cydnabod bod trafod data personol yn briodol ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data yn gwella ymddiriedaeth, a dyma yw'r peth cywir i wneud ac mae'n diogelu perthynas y Brifysgol â'i holl randdeiliaid.

## 3. Diben

Mae Prifysgol Abertawe yn dal data personol am ymgeiswyr am swyddi, cyflogeion, gweithwyr, myfyrwyr, cyflenwyr ac unigolion eraill at amrywiaeth o ddibenion.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Brifysgol yn ceisio diogelu data personol a sicrhau bod staff a myfyrwyr yn deall y rheolau ynglŷn â defnyddio data personol y maent yn cael mynediad atynt wrth eu gwaith neu a/wrth astudio.

## 4. Cwmpas

Mae'r polisi yn gymwys i bob aelod o staff a phob myfyriwr a phob eitem o ddata personol sy'n cael ei chreu, ei chasglu, ei storio a/neu ei phrosesu drwy unrhyw un o weithgareddau Prifysgol Abertawe, ym mhob maes, gan gynnwys Cyfadrannau, Unedau Gwasanaethau Proffesiynol yn ogystal ag is-gwmnïau a berchenogir yn llwyr.

Mae'r polisi yn cwmpasu ond nid yw'n gyfyngedig i systemau cwmwl sy'n cael eu datblygu neu eu comisiynu gan Brifysgol Abertawe, unrhyw systemau neu ddata a atodir i rwydweithiau data neu ffôn y Brifysgol, systemau a reolir gan Brifysgol Abertawe, dyfeisiau symudol a ddefnyddir i gysylltu â rhwydweithiau'r Brifysgol neu sy'n dal data'r Brifysgol, data y mae gan Brifysgol Abertawe yr hawliau eiddo deallusol iddynt, data y mae Prifysgol Abertawe yn eu rheoli fel y rheolydd data neu'n eu prosesu fel y prosesydd data neu gyfathrebu electronig gan Brifysgol Abertawe.

## 5. Egwyddorion Diogelu Data

Mae'n rhaid i bawb sy'n gyfrifol am ddefnyddio data ddilyn rheolau caeth a elwir yn 'egwyddorion diogelu data'. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr wybodaeth:

- yn cael ei defnyddio'n deg ac yn gyfreithlon
- yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfyngedig a nodir yn benodol
- yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n ddigonol, yn berthnasol ac nad yw'n ormodol
- yn gywir
- yn cael ei chadw am gyfnod nad yw'n hwy nag sy'n gwbl angenrheidiol.
- yn cael ei chadw'n ddiogel

Yn ychwanegol at yr egwyddorion uchod, mae'n rhaid i'r Brifysgol hefyd allu dangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data. Gelwir hyn yn gyffredin yn 7fed egwyddor Diogelu Data.

Ceir rhagor o ganllawiau ar egwyddorion diogelu data yn Atodiad 1.

## 6. Amodau Prosesu a Chydsynio

Er mwyn bod yn gyfreithlon ac yn briodol i'r Brifysgol brosesu data personol, mae'n rhaid bodloni o leiaf un o'r amodau canlynol:

- Mae Testun y Data wedi rhoi ei gydsyniad neu ei chydsyniad
- Mae angen prosesu data personol oherwydd contract
- Mae angen prosesu data personol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol
- Mae angen diogelu buddiannau allweddol i fywyd rhywun (h.y. sefyllfa lle mae bywyd rhywun yn y fantol)
- Mae angen prosesu data personol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a freinir yn y rheolydd.
- Mae angen prosesu data personol oherwydd buddiannau dilys y rheolydd neu drydydd parti ac nid yw'n ymyrryd â hawliau na rhyddidau testun y data (ni all awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r amod hwn wrth gyflawni eu tasgau cyhoeddus). Dylid nodi bod prifysgolion yn cael eu dosbarthu'n awdurdodau cyhoeddus o dan y GDPR ac felly nad oes modd defnyddio cyfiawnhad 'buddiannau dilys' o ran *gweithgareddau craidd* Prifysgol Abertawe. Efallai y bydd modd defnyddio buddiannau dilys ar gyfer prosesu *y tu hwnt i weithgareddau craidd y Brifysgol*.

Mae'n rhaid i holl weithgarwch prosesu data personol y Brifysgol fodloni un neu fwy o'r amodau uchod. Mae diogelwch cyfreithiol cryfach i wybodaeth fwy sensitif, megis cefndir ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol, iechyd, iechyd rhywiol neu gofnodion troseddol. Gall Swyddfa'r Is-ganghellor roi rhagor o gyngor ar brosesu gwybodaeth sensitif.

Diffinnir cydsyniad fel unrhyw arwydd penodol, hyddysg a diamwys o ddymuniadau testun y data a roddir o'i (g)wirfodd lle mae'n cytuno, drwy ddatganiad neu drwy weithred gadarnhaol glir, i ddata personol sy'n ymwneud ag ef neu hi gael eu prosesu. Mae'r GDPR yn egluro nad yw tawelwch, blychau wedi'u ticio ymlaen llaw nac anweithgarwch yn gyfystyr â chydsyniad.

Mae gan unrhyw un sydd wedi rhoi cydsyniad yr hawl i ddiddymu eu cydsyniad ar unrhyw adeg.

Gall y Swyddog Diogelu Data roi rhagor o gyngor ar gael cydsyniad.

## 7. Hawliau Unigolyn

Bydd y Brifysgol yn sicrhau y caiff data personol eu prosesu yn unol â hawliau Testunau Data o dan gyfraith diogelu data. Mae gan unigolyn yr hawl i:

- gael gwybodaeth benodol am weithgareddau prosesu'r Brifysgol mewn Hysbysiad Preifatrwydd (gweler **Atodiad 2**)
- gofyn am gael gweld eu data personol y mae'r Brifysgol yn eu dal, drwy gais am fynediad at ddata gan y testun.
- gofyn i'r Brifysgol ddileu data personol os nad oes eu hangen mwyach at y dibenion y cawsant eu casglu neu eu prosesu.
- cywiro data anghywir neu wneud data anghyflawn yn gyflawn
- cyfyngu ar brosesu o dan amgylchiadau penodol
- o dan amgylchiadau cyfyngedig, cael neu ofyn am i'w data personol gael eu trosglwyddo i Drydydd Parti mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n ddarllenadwy gan beiriannau.
- tynnu Cydsyniad i Brosesu yn ôl ar unrhyw adeg
- atal y Brifysgol rhag defnyddio eu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol
- herio gweithgarwch prosesu sydd wedi cael ei gyfiawnhau ar sail buddiannau dilys y Brifysgol neu er budd y cyhoedd.
- gofyn am gopi o gytundeb y mae data personol yn cael eu trosglwyddo y tu allan i'r UE yn unol ag ef
- gwrthwynebu penderfyniadau sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig, sy'n arwain at effeithiau cyfreithiol neu sy'n effeithio'n sylweddol ar unigolyn
- atal gweithgarwch prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu ofid i'r unigolyn neu rywun arall
- gael ei hysbysu am achos o Dor diogelwch Data Personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a'i ryddid
- cyflwyno cwyn i'r awdurdod goruchwylio

**Prosesu a /neu Wneud Penderfyniadau Awtomataidd**
Mae'n rhaid i staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ac mae'n rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data cyn i unrhyw brosesu awtomataidd (gan gynnwys proffilio) neu weithgareddau gwneud penderfyniadau awtomataidd gael eu cynnal. Gweler **Atodiad 2** am ragor o ganllawiau.

## 8. Atebolrwydd y Brifysgol

Mae'r GDPR yn cyflwyno nifer o ofynion ynglŷn ag atebolrwydd er mwyn annog dull rhagweithiol, wedi'i ddogfennu o gydymffurfio.

Bydd Prifysgol Abertawe yn:

- penodi Swyddog Diogelu Data
- rhoi polisïau, gweithdrefnau, prosesau a hyfforddiant ar waith i hyrwyddo 'diogelu data o'r cychwyn ac fel anghenraid'.
- rhoi contractau priodol ar waith wrth gyflawni swyddogaethau drwy gontract allanol sy'n cynnwys prosesu data personol
- cadw cofnodion o'r gweithgarwch prosesu data a gynhelir drwy'r sefydliad cyfan
- dogfennu achosion o dor diogelwch data personol a rhoi gwybod amdanynt
- cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data o ran gweithgareddau prosesu 'risg uchel'

Ceir rhagor o ganllawiau ar y meysydd hyn yn **Atodiad 2**.

## 9. Datganiadau Polisi

Mae prosesu data personol yn gyfreithlon yn hollbwysig o ran gallu Prifysgol Abertawe i weithredu'n llwyddiannus a chadw ei henw da, ac er mwyn cadw ymddiriedaeth ein myfyrwyr, cyflogeion a rhanddeiliaid eraill. Mae'n gyfrifoldeb hollbwysig rydym yn ei gymryd o ddifrif bob amser. Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddiogelu hawliau a rhyddidau unigolion yn unol â darpariaethau deddfwriaeth diogelu data. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn ymdrin â data personol mewn ffordd briodol a chyson.

Y Brifysgol sy'n gyfrifol am ddangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data. Mae pob aelod o'r Brifysgol yn gyfrifol am gydymffurfio â'r GDPR ac am gadw at yr egwyddorion hyn.

Mae'r Brifysgol yn casglu data personol wrth gofrestru myfyrwyr, cyflogi staff neu ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae'n rhaid i'r Brifysgol fodloni o leiaf un o'r amodau yn y Ddeddf o ran prosesu data personol a sicrhau y caiff data eu prosesu'n deg.

Mae'n rhaid i bawb yn y Brifysgol sy'n defnyddio data personol sicrhau bod yr holl ddata personol a ddelir ganddynt yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'n rhaid iddynt sicrhau na chaiff data personol eu datgelu i unrhyw drydydd parti anawdurdodedig ar unrhyw ffurf, naill ai'n ddamweiniol neu fel arall.

Mae gwasanaethau cwmwl yn storio gwybodaeth ar weinyddion nad ydynt yn eiddo i'r Brifysgol, felly mae'n bwysig bod defnyddwyr yn sicrhau bod gwasanaethau cwmwl yn cydymffurfio â pholisïau diogelu data a diogelwch gwybodaeth y Brifysgol.

Mae meysydd unigol o fewn y Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau'r cyfnodau cadw priodol ar gyfer yr wybodaeth y maent yn ei dal ac yn ei rheoli, yn unol â chanllawiau'r Brifysgol ar gadw cofnodion. Caiff cyfnodau cadw eu pennu, yn seiliedig ar ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a chanllawiau i'r sector a chanllawiau arfer gorau. Mae Cynllun Dosbarthu Busnes a Rhestrau Cadw Cofnodion Addysg Uwch y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth yn ffynhonnell ddefnyddiol o arweiniad.

Dim ond am y cyfnod o amser sydd ei angen i brosesu'r data personol at y diben y cawsant eu casglu y dylid eu cadw. Pan na fydd angen gwybodaeth mwyach, dylid ei gwaredu'n ddiogel. Dylai cofnodion papur gael eu rhwygo neu eu gwaredu mewn gwastraff cyfrinachol a dylai cofnodion electronig gael eu dileu'n barhaol. Os yw'r data wedi eu llwyr anonymeiddio yna nid oes unrhyw derfynau amser ar eu storio, o safbwynt diogelu data.

Dylid cael cydsyniad drwy ofyn i destun y data 'optio i mewn' yn hytrach nag 'optio allan'. Mae hyn yn golygu na fydd y Brifysgol yn tybio bod cydsyniad wedi cael ei roi am nad oes gwrthwynebiad.

Dylai unigolion sy'n rhoi eu data personol i'r Brifysgol wybod pwy yw'r rheolydd data a'r hyn a fydd yn cael ei wneud gyda'u data. Bydd angen cyhoeddi 'hysbysiadau casglu' neu 'hysbysiadau prosesu teg' priodol. Gellir ceisio cyngor gan y Swyddog Diogelu Data os oes angen.

Bydd y Brifysgol yn rheoli'r data personol y mae'n eu prosesu mewn ffordd ddiogel. Mae hyn yn gymwys i systemau cofnodion papur ac electronig. Dylai mynediad at systemau gael ei reoli, dylai staff gael hyfforddiant priodol a dylai prosesau diogelwch gael eu datblygu a'u deall. Bydd grwpiau rheoli'r Brifysgol yn ymgymryd â gweithgarwch monitro ac adrodd priodol ar risgiau i ddiogelwch data, mentrau a datblygiadau.

Os bydd y Brifysgol yn cyflogi trydydd parti fel 'prosesydd data' ar gyfer ei data personol, bydd contract ysgrifenedig penodol â'r cyflenwr yn rhoi sicrwydd ynglŷn â diogelwch ar waith. Ni fydd y Brifysgol yn dibynnu ar 'delerau ac amodau' gosod y cyflenwr.

Bydd y Brifysgol yn ystyried yr effaith ar breifatrwydd data yn ystod pob gweithgarwch prosesu. Mae hyn yn cynnwys rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i leihau'r risg i ddata personol i'r eithaf.

Bydd y Brifysgol yn gweithredu preifatrwydd o'r cychwyn wrth brosesu data personol drwy roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion preifatrwydd data.

**Trosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU**

Ni chaiff data personol eu trosglwyddo i wlad na thiriogaeth y tu allan i'r DU oni bai fod y wlad neu'r diriogaeth honno yn sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer hawliau a rhyddidau testunau data mewn perthynas â phrosesu data personol.

Mae'r GDPR yn rhestru'r ffactorau y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer y data a rhai eithriadau lle y gellir allforio'r data.

Mae'n rhaid i wybodaeth a gyhoeddir ar y rhyngrwyd gael ei hystyried yn ddata sydd wedi cael eu hallforio y tu allan i'r DU. Mae hyn yn cynnwys data sy'n cael eu storio yn y cwmwl oni bai fod darparwr y gwasanaeth yn gwarantu'n benodol mai dim ond yn y DU y caiff y data eu storio.

Dylid edrych ar Ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddefnyddio Cyfrifiaduro Cwmwl cyn defnyddio adnoddau neu wasanaethau cyfrifiaduro allanol drwy rwydwaith a all gynnwys data personol.

Dylai staff sy'n ymwneud â throsglwyddo data personol i wledydd eraill ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data.

Ceir rhagor o ganllawiau yn **Atodiad 1**.

**Marchnata Uniongyrchol**

Mae marchnata uniongyrchol yn ymwneud â chyfathrebu, ni waeth pa gyfryngau a ddefnyddir, sy'n hysbysebu neu'n marchnata deunyddiau i unigolion yn uniongyrchol e.e. ymgyrchoedd drwy'r post i godi arian, hysbysebu cyrsiau ac ati.

Mae'n rhaid i unigolion gael cyfle i dynnu eu henwau oddi ar restrau neu gronfeydd data a ddefnyddir at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mae'n rhaid i'r Brifysgol roi'r gorau i weithgarwch marchnata uniongyrchol os bydd unigolyn yn gofyn i'r Brifysgol roi'r gorau iddo.

Mae'n rhaid i weithgarwch marchnata uniongyrchol hefyd gydymffurfio â Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (PECR) sy'n cwmpasu marchnata dros y ffôn a thrwy neges testun ac e-bost. Gweler y Canllawiau ar Ddiogelu Data i gael rhagor o wybodaeth am farchnata uniongyrchol a PECR. Bwriedir i Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 gael eu disodli gan Reoliad e-Breifatrwydd newydd yn 2018.

## 10. Cofnodion Gweithgareddau Prosesu

Fel rheolydd data, mae'n ofynnol i'r Brifysgol gadw cofnod o weithgareddau prosesu sy'n cwmpasu'r holl weithgareddau prosesu data a gynhelir gan y Brifysgol. Ymhlith pethau eraill, mae'r cofnod hwn yn cynnwys manylion ynghylch pam bod y data personol yn cael eu prosesu, y mathau o unigolion y delir gwybodaeth amdanynt, gyda phwy y rhennir yr wybodaeth bersonol a phryd y trosglwyddir gwybodaeth bersonol i wledydd y tu allan i'r DU.

## 11. Plant

O dan y GDPR, mae'r cyfyngiadau canlynol yn gymwys i brosesu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â phlant:

- Mae angen cydsyniad rhiant ar gyfer gwasanaethau ar-lein a gynigir yn uniongyrchol i blant

- Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir i blentyn mewn perthynas â'i hawliau fel testun data fod yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy ac yn hygyrch, gan ddefnyddio iaith glir a syml.

- Mae angen diogelwch penodol er mwyn defnyddio data plant at ddibenion marchnata neu broffilio

Dylid hysbysu'r Swyddog Diogelu Data os oes unrhyw un o'r gweithgareddau uchod yn cael ei ystyried.

## 12. Ymchwil

Mae'r GDPR yn mabwysiadu diffiniad "eang" o ymchwil, sy'n cwmpasu gweithgareddau endidau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Nod y GDPR yw annog arloesedd, cyhyd ag y bydd sefydliadau yn rhoi mesurau diogelu priodol ar waith. Mae'n bwysig bod staff sy'n casglu data at ddibenion ymchwil yn prosesu'r data yn unol â'r GDPR a chanllawiau'r Brifysgol.

## 13. Rhannu Data

Mae angen bodloni rhai amodau penodol cyn y gellir rhannu data personol â thrydydd parti neu cyn y defnyddir prosesydd data allanol i brosesu data ar ran y Brifysgol.

Fel rheol gyffredin, ni ddylid trosglwyddo data personol i drydydd partïon, yn enwedig os ydynt yn cynnwys categorïau arbennig o ddata personol ond caniateir gwneud hynny o dan amgylchiadau penodol.

- Mae'n rhaid i unrhyw achosion o drosglwyddo data personol gydymffurfio ag egwyddorion prosesu data, yn benodol, mae'n rhaid

iddo fod yn gyfreithlon ac yn deg i destunau'r data dan sylw (gweler **Egwyddorion Diogelu Data** uchod)

- Mae'n rhaid iddo fodloni un o'r amodau prosesu (gweler **Amodau Prosesu a Chydsynio** uchod).

Gallai rhesymau dilys dros drosglwyddo data gynnwys:

- gofyniad cyfreithiol
- yn angenrheidiol ar gyfer busnes craidd swyddogol Prifysgol Abertawe
- os na fodlonir unrhyw amodau eraill, yna mae'n cael cydsyniad yr unigolion dan sylw a chyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd priodol (gweler **Atodiad 2**)
- mae'r Brifysgol yn fodlon y bydd y trydydd parti yn bodloni holl ofynion y GDPR, yn enwedig o ran dal yr wybodaeth yn ddiogel.

Pan fydd trydydd parti yn prosesu data personol ar ran y Brifysgol, mae'n rhaid bod contract ysgrifenedig yn ei le. Cynghorir rhoi contract ar waith hefyd pan fydd data yn cael eu rhannu am resymau heblaw prosesu data fel y bydd y Brifysgol yn cael sicrwydd bod gofynion y GDPR yn cael eu bodloni.

Dylai staff ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data os ydynt yn ymrwymo i gontract newydd sy'n golygu rhannu neu brosesu data personol.

Dylai staff sy'n cael ceisiadau am wybodaeth bersonol gan drydydd partïon megis perthnasau, yr heddlu, cynghorau lleol ac ati ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data.

## 14. Achosion o Dor diogelwch Data

Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i osgoi achosion o dor diogelwch data, yn enwedig colli data personol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd camgymeriadau yn digwydd weithiau. Yr hyn sy'n bwysig o dan yr amgylchiadau hyn yw bod y Brifysgol yn ymateb yn briodol yn unol â'r cyfreithiau diogelu data.

Mae'r cyfreithiau diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol hysbysu'r awdurdod goruchwylio perthnasol o Achosion o Dor diogelwch Data Personol (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer, at ein dibenion ni) 72 awr ar ôl dod yn ymwybodol yn gyntaf o'r achos a hysbysu'r Testunau Data unigol, o dan amgylchiadau penodol.

Dylai staff fod yn ymwybodol y gall methiant i hysbysu awdurdodau goruchwylio perthnasol a Thestunau Data o achosion o Dor diogelwch Data Personol yn unol â gofynion y cyfreithiau diogelu data arwain at ddirwyon o

hyd at €8.7miliwn neu 2% o'r trosiant cyffredinol blynyddol (pa un bynnag sydd uchaf).

*Os bydd aelodau o staff yn ymwybodol o achos o Dor diogelwch Personol neu'n amau hynny, ni ddylent geisio ymchwilio i'r mater eu hunain. Mae gan y Brifysgol Weithdrefn i Roi Gwybod am Dor diogelwch Data Personol ar waith. Dylai staff ymgyfarwyddo â'r weithdrefn hon a chysylltu â'r adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau ar unwaith os bydd achos o Dor diogelwch Data Personol yn unol â'r weithdrefn honno.*

## 15. Cyfrifoldebau'r Staff

Dylai pob aelod o staff sy'n gyfrifol am gasglu Data Personol, cael mynediad at Ddata Personol neu Brosesu Data Personol gydymffurfio â darpariaethau'r cyfreithiau diogelu data cymwys yn unol â'r egwyddorion a amlinellir uchod. 0 above

Mae'n ofynnol i reolwyr llinell sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o'r cyfreithiau diogelu data cymwys a Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol a'u bod yn gofyn am arweiniad a hyfforddiant ychwanegol drwy'r Swyddog Diogelu Data.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddarperir ganddynt i'r Brifysgol mewn cysylltiad â'u cyflogaeth yn gywir ac yn gyfredol.

Mae'n un o amodau cyflogaeth bod yn rhaid i bob cyflogai gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data ac felly gall methiant i wneud hynny arwain at gamau disgyblu.

## 16. Cyfrifoldebau Myfyrwyr

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sicrhau os ydynt yn rhoi eu data personol eu hunain i'r Brifysgol eu bod yn gywir ac yn gyfredol.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â **Pholisi Defnydd Digidol Derbyniol o Gyfleusterau a Systemau TG** y Brifysgol. Felly, gall methiant i wneud hynny arwain at gamau disgyblu.

## 17. Cymorth Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data sy'n gyfrifol am ymholiadau a cheisiadau ynglŷn â diogelu data o ddydd i ddydd megis ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun, ac mae'n bwynt cyswllt ar gyfer materion sy'n ymwneud â diogelu data. Mae'r Swyddog Diogelu Data hefyd yn gyfrifol am lunio canllawiau ar arfer da ym maes diogelu data ac am hyrwyddo cydymffurfiaeth drwy'r Brifysgol gyfan.

Bydd y Swyddog Diogelu Data hefyd yn rhoi hyfforddiant i unigolion/grwpiau ar gais neu lle y nodwyd angen.

## 18. Polisïau Cysylltiedig

| Teitl | Dolen |
|---|---|
| Ymgynghoriaeth Diogelwch Gwybodaeth – Polisi Diogelwch | http://www.swansea.ac.uk/media/InformationSecurityPolicy%20June%202015.docx |
| Polisi Defnydd Derbyniol o Gyfleusterau a Systemau TG | Digital-Acceptable-Use-Policy-V1.0-October-2019.pdf (swansea.ac.uk) |
| | |

## 19. Canlyniadau mynd yn groes i Bolisi

Gall unrhyw achos o fynd yn groes i'r polisi olygu bod y Brifysgol, fel y Rheolydd Data, yn atebol am y canlyniadau o dan y gyfraith. Hefyd, os bydd staff neu fyfyrwyr yn mynd yn groes i'r polisi hwn, gellir ei ystyried yn achos disgyblu a gellir ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Brifysgol. Gall methiant i gydymffurfio â'r polisi hwn arwain at gamau disgyblu hyd at a chan gynnwys terfynu cyflogaeth neu astudiaethau.

## 20. Hanes y Polisi

| Dyddiad Diwygio | Awdur | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 1 Mawrth 2022 | Bev Buckley, Swyddog Diogelu Data | Wedi'i adolygu a'i ddiwygio i adlewyrchu Brexit. |

# Atodiad 1

## Saith Egwyddor Diogelu Data

(a) **Egwyddor 1 - Mae'n rhaid i Ddata Personol gael eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn cael data yn deg ac mewn modd tryloyw drwy roi Hysbysiad Preifatrwydd i Testunau Data naill ai ar adeg casglu lle y caiff y data personol eu casglu'n uniongyrchol oddi wrth Destun y Data, neu ar adeg cyfathrebu â Thestun y Data am y tro cyntaf

neu o fewn mis i dderbyn y data personol (pa un bynnag sydd gynharaf) lle y derbynnir y data personol oddi wrth Drydydd Parti.

Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi sut a pham bod eu data personol yn cael eu prosesu (gan gynnwys pwy yw'r Rheolydd Data [a'r Swyddog Diogelu Data], sut y bydd y Brifysgol yn defnyddio, yn prosesu, yn datgelu, yn diogelu ac yn cadw'r data personol hynny a pham) a bydd yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hygyrch ac mewn iaith glir a syml fel y gall Testunau Data ei ddeall yn hawdd (gweler y canllawiau ar wahân ar Gasglu Data Personol)

Ceir gwybodaeth am y ffordd y mae'r Brifysgol yn prosesu data ynglŷn â myfyrwyr yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr. Mae hwn yn esbonio i fyfyrwyr pa ddata personol y mae'r Brifysgol yn eu casglu amdanynt, sut y bydd y Brifysgol yn defnyddio eu data, gyda phwy y gellir rhannu eu data a beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'u data.

Er mwyn i weithgarwch Prosesu fod yn gyfreithlon, dim ond os oes un o'r amodau canlynol wedi cael eu bodloni y bydd y Brifysgol yn prosesu data personol (nad ydynt yn Ddata Personol Categori Arbennig):

(i) Mae Testun y Data wedi rhoi ei Gydsyniad neu ei Chydsyniad;

(ii) Mae angen Prosesu'r data er mwyn cyflawni contract rhwng y Brifysgol a Thestun y Data;

(iii) Er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cydymffurfiaeth gyfreithiol y Brifysgol;

(iv) Er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd Testun y Data;

(v) Er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd;

(vi) Er mwyn hyrwyddo buddiannau dilys y Brifysgol, lle nad oes dim yn drech na'r buddiannau dilys hyn am fod y gweithgarwch Prosesu yn effeithio ar fuddiannau neu hawliau a rhyddidau sylfaenol Testun(au) y Data. Mae angen amlinellu at ba ddibenion y mae'r Brifysgol yn Prosesu data personol er mwyn buddiannau dilys (os ydynt yn gymwys) yn yr Hysbysiadau Preifatrwydd.

    *(Dim ond pan na fydd prosesu yn dod o dan un o swyddogaethau craidd y Brifysgol y gellir cymhwyso'r defnydd o'r amod ynglŷn â Buddiannau Dilys).*

Gwaherddir Prosesu Data Personol Categori Arbennig oni bai fod sail gyfreithiol amgen dros Brosesu wedi'i bodloni. Dim ond os bydd un o'r canlynol yn gymwys y bydd y Brifysgol yn Prosesu Data Personol Categori Arbennig:

(i) Mae Testun y Data wedi rhoi ei Gydsyniad/Chydsyniad penodol.

(ii) Mae angen Prosesu data er mwyn cyflawni rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol y Rheolydd Data neu Destun y Data ym maes cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a chyfraith diogelwch cymdeithasol.

(iii) Mae angen Prosesu'r data er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd Testun y Data neu berson arall.

(iv) Caiff data eu Prosesu wrth ymgymryd â'i gweithgareddau dilys gyda mesurau diogelu priodol gan sefydliad, cymdeithas neu unrhyw gorff nid er elw arall sydd â nod gwleidyddol, athronyddol, crefyddol neu undebol ac ar yr amod bod y gweithgarwch Prosesu yn ymwneud ag aelodau neu gyn-aelodau o'r corff yn unig neu i bersonau sy'n cysylltu â hi'n rheolaidd mewn cysylltiad â'i dibenion ac nad yw'r data personol wedi'u datgelu y tu allan i'r corff hwnnw heb gydsyniad Testunau'r Data;

(v) Mae'r gweithgarwch Prosesu yn ymwneud â data personol sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Destun y Data.

(vi) Mae angen Prosesu'r data er mwyn cadarnhau, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

(vii) Mae angen Prosesu'r data am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol y cyhoedd ar sail cyfraith y DU.

(viii) Mae angen Prosesu'r data at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, er mwyn asesu gallu'r cyflogai i weithio, gwneud diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth, neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol.

(ix) Mae angen Prosesu'r data am resymau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd.

(x) Mae angen Prosesu'r data at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol cyhyd ag y bydd y gweithgarwch Prosesu yn gymesur â'r nod a hyrwyddir, yn parchu hanfodion yr hawl i

ddiogelu data ac yn cynnig mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau Testun y Data.

(b) **Egwyddor 2 - Caiff Data Personol eu dal at ddibenion penodedig, penodol a dilys ac ni ddylent gael eu prosesu ymhellach mewn modd sy’n anghydnaws â’r diben hwnnw neu’r dibenion hynny y maent yn cael eu prosesu.**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau na chaiff data personol a geir at ddiben penodedig eu defnyddio at ddibenion anghydnaws na gwahanol i’r rhai a ddatgelwyd pan gafwyd y data personol gyntaf, oni bai fod Testunau’r Data wedi cael gwybod am y dibenion newydd a’r sail gyfreithiol y dibynnir arni (os mai Cydsyniad yw’r sail gyfreithiol hon, mae’n rhaid cael Cydsyniad priodol).

(c) **Egwyddor 3 - Bydd Data Personol yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i’r hyn sy’n angenrheidiol mewn perthynas â’r diben neu’r dibenion y maent yn cael eu prosesu yn unol â hwy**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod ond yn casglu’r data personol sydd eu hangen at y diben neu’r dibenion penodedig ac na fydd yn casglu nac yn dal data ar y sail y gallent fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

(d) **Egwyddor 4 - Bydd Data Personol yn gywir ac yn gyfredol, lle y bo angen**

Bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i sicrhau cywirdeb data personol a ddelir ganddi, a bydd yn cymryd camau i ddiwygio, diweddaru neu gywiro data anghywir os gofynnir iddi wneud hynny gan Destun Data. Bydd data personol yn anghywir pan fydd yn wallus neu’n gamarweiniol o ran unrhyw faterion ffeithiol.

(e) **Egwyddor 5 - Ni fydd Data Personol sy’n cael eu prosesu at unrhyw ddiben yn cael eu cadw am fwy o amser nag sy’n angenrheidiol at y diben hwnnw**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau na fydd data personol yn cael eu cadw am fwy o amser nag sy’n angenrheidiol at y diben neu’r dibenion y casglwyd y data personol.

Mae’n rhaid i staff sicrhau bod data personol yn cael eu dinistrio’n ddiogel unwaith bod y diben neu’r dibenion dros eu Prosesu wedi dod i ben ac nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol na rheswm gweithredol dilys dros barhau i’w cadw (gweler y canllawiau ar wahân ar Gadw Gwybodaeth Bersonol).

Gall y Brifysgol gadw data personol penodol am gyfnod amhenodol at ddibenion ymchwil (gan gynnwys at ddibenion hanesyddol neu ystadegol) fel y'i caniateir o dan y gyfraith diogelu data (gweler y canllawiau ar wahân ar ddefnyddio data personol mewn ymchwil).

(f) **Egwyddor 6 - Dylid rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i atal Data Personol rhag cael eu prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon a rhag cael eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio neu eu difrodi**

Bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol a phriodol i sicrhau diogelwch data personol a ddelir yn electronig ac â llaw, er mwyn atal data personol rhag cael eu Prosesu yn anghyfreithlon neu heb awdurdod a rhag cael eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio neu eu difrodi. Gweler yr wybodaeth ychwanegol am ddiogelwch data i gael arweiniad penodol.

Bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol a phriodol i sicrhau diogelwch data drwy ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd y data personol, a ddiffinnir fel a ganlyn:

(i) Ystyr cyfrinachedd yw mai dim ond y bobl sydd angen gwybod ac sydd wedi cael awdurdod i ddefnyddio'r data personol a all gael mynediad atynt.

(ii) Ystyr cywirdeb yw bod data personol yn gywir ac yn addas at y diben y maent yn cael eu prosesu.

(iii) Ystyr argaeledd yw bod defnyddwyr awdurdodedig yn gallu cael mynediad at y data personol pan fydd eu hangen arnynt at ddibenion awdurdodedig.

Bydd y Brifysgol yn gwerthuso ac yn profi effeithiolrwydd y mesurau diogelu hynny yn rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch ein gweithgarwch Prosesu data personol.

(g) **Egwyddor 7 – Y Rheolydd Data fydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data eraill (egwyddor atebolrwydd) a bydd yn gallu dangos y gydymffurfiaeth honno.**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod mesurau technegol a sefydliadol priodol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data.

Bydd gan y Brifysgol adnoddau a rheolaethau digonol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith diogelu data a'i dogfennu, gan gynnwys:

(i) Penodi Swyddog Diogelu Data sydd â chymwysterau addas

(ii) Rhoi mesurau diogelu data o'r cychwyn ac fel anghenraid ar waith wrth Brosesu data personol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau diogelu data cymwys.

(iii) Cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau gweithgarwch Prosesu data, lle mae Prosesu yn achosi risg uchel i hawliau a rhyddidau unigolion. Dylid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer pob prif system neu raglen newid busnes sy'n ymwneud â Phrosesu data personol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys mentrau neu dechnoleg newydd.

(iv) Integreiddio mesurau diogelu data â dogfennau, polisïau a gweithdrefnau mewnol, gan gynnwys y Polisi Diogelu Data hwn;

(v) Rhoi hyfforddiant yn rheolaidd i staff ar gyfraith diogelu data gymwys, y Polisi Diogelu Data hwn, polisïau a chanllawiau cysylltiedig a materion diogelu data, gan gynnwys, er enghraifft, hawliau unigol, Cydsyniad, sail gyfreithiol, Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ac Achosion o Dor diogelwch Data Personol;

(vi) Profi'r mesurau preifatrwydd a roddwyd ar waith yn rheolaidd a chynnal adolygiadau ac archwiliadau o bryd i'w gilydd i asesu cydymffurfiaeth, gan gynnwys defnyddio canlyniadau profion i ddangos ymdrech i wella cydymffurfiaeth.

**Cyfyngiadau ar drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU**

Mae GDPR y DU yn cyfyngu ar drosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r DU er mwyn sicrhau nad yw lefel y diogelu data a roddir i unigolion gan GDPR y DU yn cael ei thanseilio. Rydych yn trosglwyddo Data Personol sy'n hanu o un wlad ar draws ffiniau pan fyddwch yn trosglwyddo, yn anfon, yn darllen neu'n cyrchu'r data hwnnw mewn gwlad arall neu wrth anfon i wlad arall.

Gallwch ond trosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU os yw'r DU wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n cadarnhau bod y wlad yr ydym yn trosglwyddo'r Data Personol iddi'n sicrhau lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer hawliau a rhyddid gwrthrych y data neu yn absenoldeb penderfyniad digonolrwydd, bod dulliau diogelu priodol ar waith megis rheolau corfforaethol rhwymol, cymalau cytundeb safonol i'w defnyddio yn y DU, côd ymddygiad a gymeradwywyd neu ddull ardystio.

Ceir rhagor o wybodaeth am restr y Comisiwn Ewropeaidd o wledydd cymeradwy a chymalau contract safonol ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth International data transfers | ICO

Mae cyfraith diogelu data hefyd yn cynnwys nifer o eithriadau i'r cyfyngiadau ar drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU (ni waeth i ba wlad y trosglwyddir y Data Personol na phwy yw'r sefydliad derbyn). Mae'r eithriadau fel a ganlyn:

- Mae Testun y Data wedi rhoi ei Gydsyniad/Cydsyniad penodol i drosglwyddo data ar ôl cael gwybod am risgiau posibl trosglwyddo o'r fath yn niffyg penderfyniad ynghylch digonolrwydd a mesurau diogelu priodol.

- Mae angen trosglwyddo'r data er mwyn cyflawni contract rhwng Testun y Data a'r Brifysgol neu roi mesurau cyn contract ar waith y mae Testun y Data wedi gofyn amdanynt.

- Mae angen trosglwyddo'r data er mwyn llunio neu gyflawni contract a luniwyd er budd Testun y Data rhwng y Brifysgol a Thrydydd Parti.

- Mae angen trosglwyddo'r data am resymau pwysig sy'n ymwneud â budd y cyhoedd.

- Mae angen trosglwyddo'r data er mwyn cadarnhau, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

- Mae angen trosglwyddo'r data er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd Testunau'r Data neu unigolion eraill.

- Mae'r trosglwyddiad yn rhan o Ddata Personol ar gofrestr gyhoeddus.

Gan mai awdurdod cyhoeddus yw'r Brifysgol, mae'r graddau y mae'r eithriadau a amlinellir yn (a), (b) ac (c) uchod ar gael yn gyfyngedig.

Dylid gofyn am ragor o arweiniad gan y Swyddog Diogelu Data mewn perthynas â throsglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU.

# Atodiad 2

**Hysbysiadau Preifatrwydd**
O dan ofynion 'teg a thryloyw' egwyddor gyntaf diogelu data, mae'n ofynnol i'r Brifysgol roi 'hysbysiad preifatrwydd' i destunau data i'w hysbysu o'r hyn y mae'n ei wneud gyda'u data personol.

Cyhoeddir hysbysiadau preifatrwydd ar wefan y Brifysgol ac felly maent ar gael i staff a myfyrwyr o'u cysylltiad cyntaf a'r Brifysgol. Bydd unrhyw achos o brosesu data staff neu fyfyrwyr sydd y tu hwnt i gwmpas yr hysbysiad preifatrwydd safonol, neu brosesu gwybodaeth bersonol unrhyw unigolion eraill yn golygu y bydd angen cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd ar wahân.

Rhoddir rhagor o wybodaeth ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn hysbysiad preifatrwydd yn y Canllawiau ar Ddiogelu Data.

https://staff.swansea.ac.uk/professional-services/vco/data-protection/gathering-personal-information/

**Diogelu Data o'r Cychwyn**
O dan y GDPR, mae rhwymedigaeth ar y Brifysgol i ystyried yr effaith ar breifatrwydd data yn ystod pob gweithgarwch prosesu. Mae hyn yn cynnwys rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i leihau'r risg i ddata personol i'r eithaf.

Mae'n bwysig iawn ystyried materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd wrth ystyried gweithgareddau prosesu newydd neu sefydlu gweithdrefnau neu systemau newydd sy'n cynnwys data personol. Mae'r GDPR yn gosod gofyniad penodol ynghylch 'preifatrwydd o'r cychwyn', sy'n pwysleisio'r angen i roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith wrth ddylunio proses a thrwy gydol cylch oes y gweithgarwch prosesu data perthnasol er mwyn sicrhau nad ôl-ystyriaeth yw preifatrwydd a diogelu data.

Gweler y Canllawiau ar Ddiogelu Data er mwyn cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â thechnegau y gellir eu defnyddio i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â data personol, gan gynnwys 'Anonymeiddio a Rhoi dan ffugenw'.

Bydd y Brifysgol yn asesu pa fesurau preifatrwydd o'r cychwyn y gellir eu rhoi ar waith o ran pob rhaglen/system/proses sy'n prosesu data personol drwy ystyried y canlynol:

- y datblygiad diweddaraf (h.y. y lefel uchaf o ddatblygiad cyffredinol, yn achos dyfais, gweithdrefn, proses neu dechneg a sicrhawyd ar unrhyw adeg benodol);
- cost gweithredu;
- natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion Prosesu;

- y risgiau o debygolrwydd a difrifoldeb amrywiol i hawliau a rhyddidau Testunau Data a achosir gan y gweithgarwch Prosesu.

**Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA)**
Y DPIA yw'r dull o nodi ac archwilio effaith mentrau newydd a rhoi mesurau ar waith i leihau risgiau i'r eithaf neu eu lliniaru.

Ar gyfer rhai prosiectau, mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data gael ei gynnal. Ymhlith y mathau o amgylchiadau pan fydd angen hyn mae:

- amgylchiadau lle mae symiau mawr o ddata personol yn cael eu prosesu, lle mae prosesu/proffilio awtomatig, prosesu categorïau arbennig o ddata personol, neu fonitro ardaloedd y gellir eu hasesu'n gyhoeddus (h.y. teledu cylch cyfyng).

Bydd y Brifysgol yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data mewn perthynas â Phrosesu a ystyrir yn risg uchel (er enghraifft, lle mae Prosesu yn cynnwys Data Personol Categori Arbennig ar raddfa fawr)

Dylid hysbysu'r Swyddog Diogelu Data a dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wrth roi system neu raglenni newid busnes mawr ar waith sy'n cynnwys Prosesu data personol, gan gynnwys:

- defnyddio technolegau newydd (rhaglenni, systemau neu brosesau), neu dechnolegau sy'n newid (rhaglenni, systemau neu brosesau);
- Prosesu awtomataidd, gan gynnwys proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd;
- Prosesu Data Personol Categori Arbennig ar raddfa fawr;
- monitro ardal sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn systematig ar raddfa fawr (e.e. o dan deledu cylch cyfyng).

Gweler y Canllawiau ar Ddiogelu Data i gael rhagor o wybodaeth ynghylch pryd a sut i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

https://staff.swansea.ac.uk/professional-services/vco/data-protection/data-protection-impact-assessments/

**Defnyddio Proseswyr Data Trydydd Parti**
Bydd y Brifysgol yn sicrhau y caiff pob gweithgarwch prosesu data gan drydydd parti ei wneud o dan gontract ysgrifenedig, a hynny er mwyn sicrhau bod y naill barti a'r llall yn deall eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau. Caiff cymalau contract eu defnyddio yn unol â'r rhai a amlinellir o dan gyfraith diogelu data.

Mae'r Brifysgol yn atebol am ei chydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data a dim ond proseswyr a all roi 'gwarantau digonol' y caiff gofynion cyfraith diogelu data eu bodloni ac y caiff hawliau testunau data eu diogelu y bydd yn eu penodi.

https://staff.swansea.ac.uk/professional-services/vco/data-protection/working-with-third-party-data-processors/

**Prosesu a Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd**

Yn gyffredinol, gwaherddir gwneud penderfyniadau awtomataidd pan fydd penderfyniad yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg ar unigolyn oni bai:

- bod yr unigolyn wedi rhoi cydsyniad penodol;
- bod y gweithgarwch prosesu wedi'i awdurdodi yn ôl y gyfraith; neu
- bod angen prosesu'r data er mwyn cyflawni neu lunio contract â'r unigolyn.

Os yw mathau penodol o Ddata Personol Categori Arbennig yn cael eu prosesu, yna ni chaniateir seiliau (b) nac (c) ond gellir prosesu Data Personol Categori Arbennig o'r fath pan fydd angen gwneud hynny (oni bai fod modd defnyddio dulliau llai ymwthiol) er budd sylweddol y cyhoedd megis atal twyll.

Os bydd penderfyniad yn seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio), yna mae'n rhaid i Destunau Data gael eu hysbysu mewn Hysbysiad Preifatrwydd o'r rhesymeg a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau neu broffilio, yr arwyddocâd a'r canlyniadau a ragwelir. Mae'n rhaid i Destun y Data hefyd gael yr hawl i ofyn am ymyrraeth ddynol, mynegi ei safbwynt neu herio (gweler y canllawiau ar Gasglu Data Personol).

Mae'n rhaid i Destunau Data hefyd gael eu hysbysu bod ganddynt yr hawl i wrthwynebu hyn y tro cyntaf y cyfathrebir â hwy (fan bellaf). Mae'n rhaid mynd ati'n benodol i dynnu eu sylw at yr hawl hon a'i chyflwyno'n glir ac ar wahân i wybodaeth arall.

Mae mwy o wybodaeth am weithdrefnau diogelu data a dogfennau arweiniol ar gael yma